# Llengfilwr Rhufeinig



# Ystafell Llengfilwr

- Roedd wyth milwr yn cysgu mewn ystafell o'r maint hwn.
- Roedd milwyr yn cysgu ar fatresi gwellt gyda blanced ond dim clustogau.
- Efallai eu bod yn defnyddio tân i gadw'n gynnes a canhwyllau neu lampau oel fel golau.
- Roedd milwyr yn storio eu harfau yn yr ystafell allanol.
- Byddai milwyr yn paratoi bwyd yn yr ystafell hon ond roedd y rhan fwyaf yn cael ei goginio mewn poptai mawr.

# Cit Llengfilwr Rhufeinig:

- Tiwnig - wedi'i wneud o wlân ac weithiau'n cael ei wisgo dros grys lliain.
- *Balteus* (*belt)* - gyda stribedi lledr â stydiau.
- *Pugio* (dagr) - defnyddiol fel offeryn amlbwrpas yn ogystal ag arf.
- *Caligae* (esgidiau) - gyda lledr a stydiau metel er mwyn peidio llithro ar y glaswellt.
- *Lorica Segmentata* (arfwisg cylchrannog) - stribedi haearn a lledr. Amddiffyn y corff ond hefyd yn galluogi hyblygrwydd ar faes y gad.
- *Galea* (helmed) - câi ei wisgo gyda chap meddal oddi tano. Gwarchod y milwr ond yn caniatáu iddo weld yn dda a chlywed gorchmynion. Roedd gosodiadau ar gyfer plu ar rai helmedau.
- *Pila* (picelli) - byddai milwyr yn cario dau o'r rhain i'w taflu at y gelyn.
- *Gladius* (cleddyf) - wedi'i wisgo ar ochr dde'r corff. Roedd rhaid i filwyr llaw chwith hyd yn oed ddysgu i ymladd â'u llaw dde.
- S*cutum* (tarian) - tarian grom i amgylchynu'r corff, câi ei dal yn y llaw chwith. Wedi'i haddurno gyda phaent.
- Gweler yr arfau replica yn y casyn arddangos, ac mae llawer o rai gwreiddiol yn oriel yr amgueddfa.